It's

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**

**—**

**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565

**—**

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Dawn Bowden AS
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth
Llywodraeth Cymru

16 Ionawr 2024

## National Theatre Wales

Annwyl Dawn

Ysgrifennaf atoch ynglŷn ag Adolygiad Buddsoddi diweddar Cyngor Celfyddydau Cymru ac effaith hwn ar National Theatre Wales. Yn ein cyfarfod ar 11 Ionawr 2024, ystyriodd ein Pwyllgor sawl eitem o ohebiaeth am y broses adolygu, am apêl National Theatre Wales, ac am y canlyniadau dilynol.

Fel y gwyddoch, sefydlwyd National Theatre Wales yn sgil y Rhaglen Lywodraethu Cymru'n Un yn ystod y Trydydd Cynulliad, fel rhan o addewid y llywodraeth i sefydlu theatr genedlaethol Saesneg ei hiaith. Yn ystod ei oes, mae wedi darparu rhai gweithiau cofiadwy a gafodd glod y beirniaid, gan gynnwys "The Passion" ym Mhort Talbot yn 2011, a "City of the Unexpected" gan Roald Dahl yng Nghaerdydd yn 2016.

Cododd yr ohebiaeth a ystyriwyd gennym nifer o bryderon gyda ni ynghylch sut y mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi gweithredu'r Adolygiad Buddsoddi, a'r broses apelio ddilynol.

Rydym ninnau hefyd yn pryderu y gallai terfynu cyllid National Theatre Wales yn gyfan gwbl, ac yn gyflym, cyn i adolygiad Cyngor y Celfyddydau o theatr Saesneg gael ei gynnal, arwain at niwed hirdymor i'r sector. Gallai hyn yn ei dro arwain at fod cynlluniau newydd Cyngor y Celfyddydau ar gyfer y sector gryn dipyn yn anos i'w gweithredu. Rydym hefyd yn pryderu y gallai diwedd mor sydyn i'r cyllid arwain at golli eiddo deallusol, adnoddau ffisegol a pherfformiadau arfaethedig yn y dyfodol, er bod miliynau sylweddol o arian cyhoeddus eisoes wedi'u buddsoddi yn National Theatre Wales.

Gyda hynny mewn golwg, byddwn yn ddiolchgar pe gallwn gael rhagor o wybodaeth gennych am y materion isod.

Yn benodol, a oes modd i chi roi gwybod i ni, a ydych chi neu unrhyw un o’ch swyddogion wedi ystyried, ac wedi cael sicrwydd, bod yr adolygiad buddsoddi a’r broses apelio a gynhaliwyd gan Gyngor y Celfyddydau yn deg ac yn briodol? Os felly, byddem yn croesawu cael amlinelliad o'r ystyriaethau ynglŷn â hyn.

Ymhellach, ac o ystyried fod y penderfyniad wedi’i wneud i ddod â chyllid National Theatre Wales i ben ym mis Ebrill 2024, a ydych chi, neu unrhyw un o’ch swyddogion, wedi ystyried darparu cyllid interim i National Theatre Wales? Hynny yw, naill ai fel cyllid craidd ar gyfer y sefydliad, neu fel cyllid cynhyrchu, i alluogi gwaith theatraidd Saesneg sydd wedi'i gynllunio i ddigwydd, a hynny cyn adolygiad arfaethedig Cyngor y Celfyddydau o theatr Saesneg. Os felly, unwaith eto, byddem yn croesawu cael amlinelliad o’r ystyriaethau sydd wedi bod yn ymwneud â hyn.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ystyried y mater hwn ar fyrder a byddwn yn fwy na bodlon i drefnu cyfarfod i drafod hyn ymhellach.

Yn gywir,

**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.